

CREU DIGWYDDIAD CASGLU DILLAD I'R STAFF



ASTUDIAETH
ACHOS

PARTNERIAID:

Llywodraeth Cymru, partneriaid elusennau lleol a Caru Eich Dillad

PERTHNASOL I:

Sefydliadau'r sectorau cyhoeddus neu breifat, ymgysylltiad gweithiwr, Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

TROSOLWG

Fel rhan o Caru Eich Dillad Caerdydd, ymgyrch ymgysylltu wythnos o hyd ledled y ddinas, sy'n canolbwyntio ar newid ymddygiad ddefnyddwyr, anogwyd staff Llywodraeth Cymru ar hyd a lled Cymru i roi dillad nad oedden nhw eu hangen mwyach i helpu i gyfrannu tuag at gasglu pedair tunnell ar gyfer elusennau lleol. Byddai hynny'n cyfateb i arbed 21 o dunelli o CO₂e, 6,399 m³ o ddŵr, a 2 dunnell o wastraff proses wedi ei osgoi.

Y BROBLEM

Bob 2 funud, mae defnyddwyr y DU yn taflu mwy na thunnell o ddillad i ffwrdd. Mae oddeutu traean o'r dillad hyn yn mynd i safleoedd tirlenwi, er gwaethaf y ffaith y dylid ailgylchu tecstilau neu eu rhoi i elusen. Ac mae tua un rhan o dair o'r dillad sydd yng nghyrryddau pobl heb eu gwisgo am o leiaf

blwyddyn. Fel rhan o'r ymgyrch hon roedd hi'n bwysig annog ymddygiad effeithlon o ran adnoddau drwy ofyn i aelodau o staff roi'r dillad nad oedden nhw'n eu gwisgo rhagor, dweud wrthyn nhw sut y byddai eu cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth ac i'w gwneud hi'n gyfleus iddyn nhw roi'r dillad.

BETH WNAETHON NI

Cymerodd chwe o swyddfeydd mwyaf Llywodraeth Cymru ran yn yr ymgyrch gan gyrraedd dros 4,000 o aelodau o staff a chyda'r nod o gasglu tunnell o ddillad.

Defnyddiwyd ystafell a glustnodwyd ym mhob swyddfa er mwyn i aelodau o staff adael eu rhoddion. Derbyniodd pob swyddfa arwyddwr SCAP a weithredodd yn lleol i gasglu'r dillad a'u gwerthu ymlaen yn eu siopau. Roedd y rhain yn cynnwys YMCA Caerdydd, Sefydliad Prydeinig y Galon, a Byddin yr Iachawdwriaeth.

Lansiwyd yr ymgyrch gan Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AC, drwy neges fideo i'r holl staff a anfonwyd trwy gyfrwng cylchlythyr

y staff ac a ddangoswyd ar y mewnwyd. Darparwyd deunyddiau dwyieithog gan gynnwys fideos Caru Eich Dillad, infograffeg a gwybodaeth ystadegol i'r tîm cysylltiadau mewnol eu dosbarthu i'r staff fel rhan o'r cynllun cyfathrebu cyffredinol. Cefnogwyd hyn gan bosteri mewn lifftiau ac ar fyrddau arddangos mewn swyddfeydd a sgriniau fideo.

Gosodwyd stonddin wybodaeth yn swyddfa Parc Cathays am ddau ddiwrnod i hyrwyddo'r ymgyrch ac i ddosbarthu bagiau y gellir eu haildefnyddio er mwyn i aelodau o staff ddod â'r dillad yr oedden nhw'n dewis eu rhoi i'r swyddfa.

Cynhaliwyd y fenter trwy gydol mis Hydref 2016.

GWELER Y CYNLLUN GWEITHREDU

www.carueichdillad.org.uk



EICH DILLAD



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



wrap
Cymru

CREU DIGWYDDIAD CASGLU DILLAD I'R STAFF



ASTUDIAETH
ACHOS

EFFAITH

Rhoddwyd cyfanswm o 2248kg o ddillad i elusennau lleol, mwy na dwbl y targed gwreiddiol.

“Roedd hon yn ymdrech ar y cyd gyda rheolwyr lleoliad ledled yr ystad yn dod â'r ymgyrch yn fyw yn ein swyddfeydd rhanbarthol. Bydd y dillad a gasglwyd yn cynhyrchu incwm sydd ei angen yn fawr ar elusennau yr ydym wedi dod yn bartneriaid â nhw ac roeddem yn falch ein bod wedi mynd yn bell dros ein targed”

Sarah Bonwick, Arweinydd
Tim ar gyfer Mentrau
Strategol, Llywodraeth
Cymru

GWELER Y CYNLLUN GWEITHREDU

www.carueichdillad.org.uk



EICH DILLAD



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



wrap
Cymru